


Ymgynghoriad

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Brexit a'n Moroedd

Ymatebion erbyn 21 Awst 2019

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Gweinidog | 1 |
| Yr Amgylchedd Morol | 5 |
| Y Fframwaith Cyfreithiol yn Rhyngwladol, yn y DU ac yng Nghymru | 10 |
| Rheoli Pysgodfeydd | 12 |
| Pysgodfeydd Cynaliadwy | 15 |
| Cyfleoedd pysgota | 18 |
| Pysgod cregyn a dyframaethu | 21 |
| Masnach | 25 |
| Tyfu ac arloesi | 29 |
| Cynaliadwyedd y fflyd | 31 |
| Tystiolaeth | 33 |
| Cyllid a Chymorth | 35 |
| Llywodraethu a Chyfathrebu | 37 |
| Dolenni at ddeunydd darllen pellach | 38 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG32919

## Rhagair gan y Gweinidog Lesley Griffiths AC

Mae'n harfordir a'n moroedd yn asedau naturiol anhygoel sy'n cyfrannu at ein llesiant. Maent hefyd yn dod â miliynau o bunnoedd i economi Cymru, yn cynnal miloedd o swyddi ac yn rhoi inni dreftadaeth a diwylliant cyfoethog. Mae dros 60% o bobl Cymru yn byw ger ein glannau, ac mae'n holl ddinasoedd mawr a llawer o'n prif drefi ar yr arfordir.

Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a chael y cyfle i lunio'n polisïau ein hunain yn adeg o bwys i'r amgylchedd morol ac i'r diwydiant pysgota yng Nghymru. Bydd sut y byddwn yn mynd ati i adael yr UE yn cael effaith arwyddocaol ar y diwydiant pysgota.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi dangos yn glir iawn y cysylltiadau agos sydd rhwng ein cadwyni cyflenwi a'n marchnadoedd ni ac Aelod-wladwriaethau eraill; mae rhyw 90% o'n hallforion yn mynd i Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Mae'r rheolau a'r rheoliadau sy'n arwain at rwystrau nad ydynt yn dariffau yn gryn her i'r ffordd y mae'n diwydiant yn gweithio. Er ein bod wedi bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i baratoi rhag ofn y byddwn yn ymadael heb gytundeb, mae'n glir bod mynediad dirwystr yn bwysig inni. Mae estyn Erthygl 50 yn rhywbeth i'w groesawu felly – rhaid osgoi'r effaith negyddol y byddai gadael heb gytundeb yn ei chael ar y diwydiant pysgota.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau'r achos o blaid parhau i gael mynediad llawn a dirwystr i'r Farchnad Sengl a bod yn rhan o Undeb Tollau, gan warchod ein hallforion bwyd môr.

Mae pysgodfeydd Ewrop yn cael eu rheoli gan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC). Mae gadael yr UE, ac felly'r PPC, yn gyfle inni deilwra'n polisïau fel eu bod yn diwallu anghenion Cymru. Mae diwydiant pysgota Cymru yn wahanol i'r diwydiant hwnnw mewn rhannau eraill o'r DU. Er y bydd llawer o'r un heriau'n ein hwynebu, bydd rhai ohonynt yn wahanol. Mae datganoli ac ymadael â'r UE yn gyfle inni ddatblygu a chreu system a fydd yn gweithio i Gymru.

Yr ymgynghoriad hwn yw cam cyntaf y broses o greu polisi newydd a chyfundrefn reoli addas i'r diben a fydd yn cael eu hategu gan sylfaen ddeddfwriaethol briodol er mwyn sicrhau bod amgylchedd morol Cymru a fflydoedd pysgota yn gallu ffynnu mewn byd ar ôl yr UE.

Mae rheoli'n moroedd a'n pysgodfeydd yn fater cymhleth. O ystyried maint ecosystemau a dosbarthiad stociau pysgod, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar lwyfan rhyngwladol, ac mae'n cynnwys deddfwriaeth ar lefel Cymru, y DU a'r UE, ynghyd â chytundebau cydwladol a rhyngwladol.

Mae'n rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) yn cyfrannu at rwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Mae pob AMG, boed yn safle morol Ewropeaidd a ddynodwyd gan y DU neu'n safle cenedlaethol a ddynodwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009), yn cyfrannu at rwydwaith OSPAR o Ardaloedd o'r fath. Mae stociau pysgod yn cael eu rheoli ar raddfa ryngwladol hefyd o dan adain Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr a'r Cytundeb ar Stociau Rhychwantu. Mae Cymru, a hithau'n genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, yn cydweithio ar y llwyfan rhyngwladol eisoes, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Ers y refferendwm yn 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda gweinyddiaethau pysgodfeydd ar draws y DU i sicrhau bod pwerau i reoli pysgodfeydd yn parhau i gael eu harfer yn briodol. Rydym wrthi'n sicrhau y bydd yr holl ddeddfwriaeth yn weithredol ar ôl inni ymadael â'r UE a bydd 100 a mwy o ddarnau o ddeddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â'r môr a physgodfeydd yn cael eu cadw ar lyfr statud y DU yn syth ar ôl inni ymadael â'r UE.

Wrth ystyried trefniadau'r dyfodol, rydym yn ymrwymo i gadw, a phan fo angen, i wella, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a dilyniant yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- Rydym yn ymrwymedig i'r egwyddorion a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac fe'u hymgorfforwyd yng Nghynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru.

- Byddwn yn parhau i weithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009 a'r Cyfarwyddebau Natur er mwyn gwella bioamrywiaeth a  gweithio i gryfhau ecosystemau.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau, pan fo hynny'n briodol, bod safonau amgylcheddol yn cael eu cynnal a'u gorfodi yn nyfroedd Cymru a bod y fframwaith cyffredinol yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yn parhau am y tro.
- Rydym yn buddsoddi mewn systemau newydd, staff newydd a chychod newydd er mwyn gorfodi safonau ac erlyn y rheini nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion.

Mae'n hymrwymiadau yn y meysydd hyn yn hanfodol bwysig o ran sut y byddwn yn cynnal, yn cefnogi ac yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i Gymru ar ôl inni adael yr UE. Bydd angen inni fynd ati yn y blynyddoedd nesaf hyn i ystyried a ydym am wneud pethau mewn ffordd wahanol yng Nghymru, ac os ydym, sut. Diben yr ymgynghoriad hwn yw sbarduno trafodaeth hirach a fydd yn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'ch blaenoriaethau chi.

Nid yw pysgotwyr Cymru yn cael cyfran deg o gyfleoedd pysgota, fel yr amlinellir yn adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ‘Implications of Brexit for Fishing Opportunities in Wales’. Wrth inni adael yr UE, bydd Llywodraeth Cymru yn dadlau o blaid cael cyfran fwy o gyfleoedd pysgota. Mae hynny'n cynnwys bargen decach a system decach a ddaw â budd i'n hamgylchedd morol, i'r diwydiant pysgota ac i'n cymunedau morol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae cyfleoedd pysgota yn fater cymhleth a dadleuol ac mae yna risgiau a chyfleoedd mawr y bydd angen inni edrych yn fwy manwl arnynt.

Y brif ystyriaeth sydd ar ein meddwl yw'r fasnach mewn cynhyrchion pysgodfeydd. Yng Nghymru, mae rhyw 90% o allforion ein pysgodfeydd yn mynd i'r UE, ac mae'r gweddill yn dibynnu'n bennaf ar gytundebau masnach â'r UE a chytundebau â gwledydd eraill. Bydd ein dyfodol yn hyn o beth yn dibynnu ar ein perthynas â'r UE yn y dyfodol.

Ni all diwydiannau pysgota a dyframaethu Cymru aros yn eu hunfan. Mae pysgota'n ddiwydiant cynradd ac yn rhan o'r economi fyd-eang. Er mwyn goroesi a ffynnu, rhaid iddo arloesi a datblygu. Mae'r diwydiant wedi dibynnu ar gynhyrchu cynradd sydd wedi cael ei ddiogelu rhag tariffau a rhag rhwystrau heblaw am dariffau, ac sydd wedi allforio cynnyrch byw i'r UE a thu hwnt. Mae hynny'n golygu bod y diwydiant yn wynebu prisiau cyfnewidiol a newidiadau yn y galw ymhlith cwsmeriaid. Mae hynny'n ei roi mewn sefyllfa fregus. Yn ein barn ni, mae angen mwy o gysondeb o ran cyfleoedd ar y diwydiant, ac mae angen swyddi mwy diogel a chreu mwy o gyfoeth; mae’n bosibl y daw marchnadoedd y tu allan i'r UE yn fwyfwy pwysig.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn ichi fynegi barn am nifer o feysydd, gan gynnwys:

- Rheoli cyfleoedd pysgota ar ran pobl Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth inni ymadael â'r UE, byddai unrhyw gyfleoedd pysgota ychwanegol a gaiff eu negodi ar gyfer Cymru yn cael eu rheoli ar ran pobl Cymru er mwyn cynnig mwy o fudd i'n cymunedau arfordirol ac arwain at dwf cynaliadwy yn y diwydiant pysgota.
- Byddwn yn cyflwyno arferion rheoli mwy cynaliadwy ar gyfer rhywogaethau sydd â gwerth masnachol, gan wneud hynny ar sail tystiolaeth wyddonol gref. Gallai'r arferion hynny gynnwys dulliau rheoli addasol a fyddai’n cyflwyno system fonitro er mwyn cynnal stociau penodol a chynnig yr hyblygrwydd i agor a chau pysgodfeydd mewn ymateb i effeithiau ac amrywiadau amgylcheddol. Ein bwriad yw sicrhau y byddai dulliau rheoli addasol, dros amser, yn fodd i wneud ein hecosystemau hyd yn oed yn fwy cydnerth.

Mae'n dda gennyf fedru gofyn eich barn am faterion sy'n rhai pwysig iawn i bobl Cymru ac i'n cymunedau arfordirol yn benodol, wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd.

Gwn pa mor angerddol yw pobl am ein hamgylchedd morol ac rwyf yn edrych ymlaen at gael gweld eich ymatebion.



**Lesley Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

# Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Mae Ffyniant i Bawb yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i fynd ati, ar y cyd â rhanddeiliaid, i lunio polisi newydd ar bysgodfeydd sy'n un addas i'r diben wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar y sector Morol a Physgodfeydd Môr ac yn ceisio creu consensws ar sut i reoli ac i warchod ein moroedd yn y dyfodol.

## Sut i Ymateb

Rydym yn ddiolchgar ichi am roi o'ch amser i ddarllen yr ymgynghoriad hwn ac i ymateb iddo.

Mae holl gwestiynau'r ymgynghoriad yn rhai dewisol ac eithrio'r adran 'Amdanoch chi'. Mae'r adran hon yn dangos inni a ydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl. Bydd ymatebion ar ran sefydliadau yn cael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion oddi wrth unigolion, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod i ba gategori yr ydych yn perthyn.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rydym yn gofyn ichi roi eich enw chi ac enw'r sefydliad. Fodd bynnag, gallwch ddewis bod yn ddi-enw os dyna yw eich dymuniad. Dylech gyfeirio at yr adran ar Ddiogelu Data ichi gael gwybod mwy am sut y bydd yr wybodaeth honno'n cael ei defnyddio.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 1 Mai 2019 a 21 Awst 2019. Ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cofiwch fynd ati i ddweud eich dweud. Mae'ch barn yn bwysig inni. Bydd yn ein helpu i fireinio ac i lunio'n cynigion.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw **23:59** ar **21 Awst 2019**.

## Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

### Ar-lein

I weld y ddogfen ymgynghori, ewch i wefan Llywodraeth Cymru
**llyw.cymru/ymgyngoriadau**

### Ysgrifennu atom:

Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig:

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Anfonwch e-bost atom os hoffech gael copi caled o’r ddogfen: **YMor.Pysgodfeydd.Ymadael.UE@llyw.cymru**

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y Rheolydd Data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith dadansoddi ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd yn comisiynu trydydd parti achrededig i ymgymryd â'r gwaith hwnnw (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni gwasanaethau ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel yn rhan o delerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd arnom o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os cyhoeddir eich manylion yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau hynny, a fydd yn cael eu cyhoeddi, yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni chaiff unrhyw ddata amdanoch a fydd yn cael eu cadw fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch a sut i'w gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn y data hynny
- yr hawl (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- i ofyn (o dan rai amgylchiadau) inni 'ddileu' eich data
- i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: **Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru**

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: **https://ico.org.uk/**

# Yr Amgylchedd Morol

## Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cefnforoedd a'm moroedd yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fioamrywiol.

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (DMMA) yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol inni fedru gwireddu'r weledigaeth hon drwy system o fesurau i reoli ac i warchod yr amgylchedd morol a'r arfordir.

Yn y cyd-destun hwn, rydym am i Gymru fedru diwallu anghenion y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, ac i drosglwyddo amgylchedd morol iach a chynnig diwydiant pysgota proffidiol, sefydlog ac amrywiol i'r genhedlaeth nesaf.

Yn 2011, gwnaeth pedair gweinyddiaeth forol y DU ymrwymiad cadarn, drwy lofnodi'r Datganiad Polisi Morol, i fynd ati i reoli'n moroedd mewn ffordd gydgysylltiedig a rhagweithiol. Eir ati yn y cytundeb hwn i amlinellu fframwaith ar y cyd ar gyfer paratoi cynlluniau morol ac i lywio penderfyniadau a fydd yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd morol yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy.

### Rôl y môr ar gyfer cymunedau yng Nghymru

Mae dros 60% o bobl Cymru yn byw ac yn gweithio ger ein glannau, ac mae'n holl ddinasoedd mawr a llawer o'n trefi pwysig ar yr arfordir. Mae moroedd Cymru yn cynnal amrywiaeth ryfeddol o gynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys riffiau, fforestydd lludwymon, gwastadeddau llaid llanw, gwelyau glaswellt y môr, dolffiniaid, adar drycin Manaw a phalod. Mae llawer o bobl yn troi at ein moroedd i wneud bywoliaeth neu i fwynhau eu horiau hamdden, a bydd ganddyn nhw ddiddordeb yn y ffordd newydd y bydd ein moroedd a'n harfordiroedd yn cael eu rheoli ar ôl Brexit.

Mae'n harfordir trawiadol ac amrywiol yn denu 3.6 miliwn o deithiau i Gymru. At ei gilydd, amcangyfrifir bod y diwydiant twristiaeth arfordirol yng Nghymru yn werth £602 miliwn[1].

Mae'r gwastatir arfordirol yn gul yn y gogledd a'r gorllewin ond yn lletach yn y de. Mae hynny'n arwain at heriau o ran seilwaith sy'n effeithio ar y gallu i symud cynnyrch rhwng cymunedau arfordirol a'r dinasoedd mwy. Yn achos y cymunedau arfordirol hynny sy'n bell o'r prif ddinasoedd, mae'r môr a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ef yn bwysig i lesiant pobl drwy ddarparu swyddi a chyfleoedd i fwynhau gweithgareddau hamdden, a hefyd drwy gynnal amrywiaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o dreftadaeth.

### Datblygu cynaliadwy

Mae Cymru eisoes wedi cymryd y cam pwysig o nodi, mewn deddfwriaeth, yr hyn a olygir wrth ddatblygu cynaliadwy a sut yr ydym wedi ymrwymo i gyrraedd y nod yn hynny o beth. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn torri tir cwbl newydd, a sefydlodd egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud eu gwaith mewn ffordd sy'n helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd nodau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol.

### Y Cynllun Morol

Mae rhanddeiliaid yng Nghymru ac yn y DU yn cydweithio i ddatblygu set o bolisïau cynllunio strategol a fydd yn cael eu hamlinellu yn y Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf erioed i gael ei lunio ar gyfer Cymru. Mae'r cynllun yn ymdrin â chyfnod o 20 mlynedd ac yn rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad ar bob penderfyniad a allai effeithio ar yr ardal forol. Drwy ddod â pholisïau ar gyfer yr ardal forol at ei gilydd mewn un man, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn cynnwys gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ei nod yw rheoli'r

[1] Arolwg Ymwelwyr Prydain Fawr **http://www.visitbritain.org/statistics-insights**


SLIPSTREAM
APATSHE

galwadau cynyddol ar ein hamgylchedd morol, hyrwyddo a helpu i sicrhau bod sectorau morol yn cael eu datblygu'n economaidd mewn ffordd gynaliadwy ac mewn lleoliadau priodol, a sicrhau bod diogelu'r amgylchedd ac ystyriaethau cymdeithasol yn rhan annatod o benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ardal forol. Felly, mae'n rhoi help llaw a hwb i gymunedau arfordirol ar y lefel leol, ac yn sbarduno twf economaidd cenedlaethol mewn ffordd gynaliadwy.

Y camau nesaf fydd mabwysiadu cynllun morol terfynol ac yna hoelio'n sylw ar ei roi ar waith. Rydym yn gweithio eisoes gydag ystod eang o randdeiliaid ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau i'w helpu i ddeall sut y gall y cynllun helpu i wireddu'n huchelgais gyffredin. Byddwn yn dysgu oddi wrth y broses o baratoi cynllun morol, gan gasglu tystiolaeth a rhannu arferion da er mwyn datblygu mwy ar gynllunio morol. Rhan bwysig o'r gwaith hwnnw fydd monitro ac adrodd ar effeithiolrwydd y cynllun a'r polisïau a fydd ynddo.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i'r polisi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd ragweithiol, gynaliadwy a chydgysylltiedig, fel y bo'r adnoddau hynny'n cael eu defnyddio mewn ffordd sydd nid yn unig yn cynnal cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt, ond sydd hefyd yn eu gwella.

Mae Cymru wedi ymrwymo hefyd i ennill ac i gadw Statws Amgylcheddol Da (SAD), yn unol â Strategaeth Forol y DU. Mae Strategaeth Forol y DU yn nodi sut y byddwn yn mynd ati dros gyfnod o chwe blynedd i ennill neu i gadw Statws Amgylcheddol Da drwy amlinellu targedau strategol allweddol ac, yn fwy penodol i Gymru, ein huchelgais i sicrhau'r Statws hwnnw, sy'n cael ei nodi yn y rhaglen mesurau. Drwy weithredu fel hyn i ennill Statws Amgylcheddol Da, bydd yr amgylchedd morol yng Nghymru yn parhau'n gynhyrchiol ac yn gydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r fframwaith SAD yn cynnwys 11 elfen amgylcheddol neu ddisgrifiadau o statws amgylcheddol: bioamrywiaeth, rhywogaethau estron, rhywogaethau masnachol, gweoedd bwyd yn y môr, ewtroffigedd a achosir gan bobl, integriti gwely'r môr, amodau hydrograffigol, halogion, halogi pysgod a bwyd môr, sbwriel yn y môr ac ynni a sŵn. Mae Strategaeth Forol y DU yn cynnwys cyfrannu at rwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael eu rheoli'n dda, a chyfrannu hefyd at sicrhau bod lefelau pysgota'n cadw at lefel y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf neu'n is na'r lefel honno.

O dan y fframwaith hwn, mae gweithgareddau gan bobl yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n seiliedig ar ecosystemau, sy'n golygu bod modd defnyddio nwyddau a gwasanaethau morol mewn ffordd gynaliadwy, ond gan sicrhau ar yr un pryd fod yr amgylchedd morol yn cael ei warchod, a'i fod yn cael ei atal rhag dirywio. Yn ymarferol, mae ennill Statws Amgylcheddol Da yn golygu bod dyfroedd morol mewn cyflwr sy'n cynnal cefnforoedd a moroedd sy'n amrywiol yn ecolegol ac yn llawn bywyd drwy fod yn lân, yn iach ac yn gynhyrchiol. Bydd gan y polisïau rôl allweddol i'w chwarae o ran gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac o ran helpu i ennill Statws Amgylcheddol Da. Byddant hefyd yn sicrhau bod gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar ecosystemau yn gwbl ganolog wrth reoli pysgodfeydd yn y dyfodol ac wrth wneud penderfyniadau a fydd yn gysylltiedig â moroedd Cymru.

## Gwaith sy'n mynd rhagddo i wella ansawdd amgylcheddol

Ni fyddwn yn cefnu ar ein hymrwymiadau nac yn glastwreiddio safonau sy'n ymwneud â'r amgylchedd morol o ganlyniad i Brexit.

Mae ecosystemau morol iach a chydnerth yn cefnogi cymunedau arfordirol Cymru a llesiant y bobl hynny sy'n byw ger ein harfordiroedd, ac sy'n ymweld â nhw ac yn eu mwynhau. Mae hyn yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar rwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael eu rheoli'n dda. Mae'r 139 o

Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol eisoes at gydlyniant ecolegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gwblhau ei chyfraniad i'r rhwydwaith ehangach ac i barhau i sicrhau bod ei chyfraniad yn cael ei rheoli'n dda. Byddwn yn defnyddio'r cyfuniad o bwerau sydd ar gael drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a'r amryfal Reoliadau sy'n rhoi'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar waith er mwyn parhau i wireddu'r ymrwymiad hwn.

Rydym yn gofyn am ragor o bwerau drwy Fil Pysgodfeydd y DU i reoleiddio gweithgarwch mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig oddi ar yr arfordir.

Er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o iechyd, cyflwr a chydnerthedd moroedd Cymru, rydym yn cydweithio ag asiantaethau eraill sy'n gyfrifol am ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig i ddatblygu rhaglen fforddiadwy o fonitro bioamrywiaeth forol a fydd yn cael ei blaenoriaethu. Bydd y rhaglen yn adeiladu ar weithgareddau monitro sy'n mynd rhagddynt eisoes er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n rhoi pwysau ar fioamrywiaeth forol. Bydd y rhaglen hefyd yn llywio penderfyniadau rheoli ac yn parhau i gyflawni'r rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol sydd arnom o ran asesu ac adrodd. Er enghraifft, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n cynghorydd statudol ar warchod natur, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), i drefnu bod gweithgareddau pysgota a’u heffaith ar nodweddion yn cael eu gwerthuso.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi chwarae rôl bwysig o ran helpu i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r môr, ac o ran ei gweithredu. Datblygwyd llawer o'r ddeddfwriaeth honno ar lefel yr UE a'r DU. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen ag ymrwymiadau a wnaed a dulliau gweithredu a fabwysiadwyd yn y gorffennol. Bydd rheoliadau'r UE sy'n ymwneud ag amgylchedd morol Cymru yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio'n effeithiol unwaith y byddwn wedi gadael yr UE. Bydd ein hymrwymiad i gydnerthedd yr ecosystem forol yn ystyriaeth bwysig wrth inni fynd ati i lunio polisi ar bysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol, ac i sefydlu fframwaith polisi a fydd yn diogelu stociau pysgod, yn eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy ac yn sicrhau manteision oddi wrthynt.

## Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu

Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, ni fydd y trefniadau goruchwylio presennol, sy'n cael eu darparu gan Gomisiwn yr UE a Llys Cyfiawnder Ewrop i sicrhau bod cyfreithiau'r UE yn cael ei gweithredu, yn berthnasol bellach. Datblygwyd y cyfreithiau hyn o fewn fframwaith yr UE, sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn cymhwyso pedair o egwyddorion yr UE: atal, bod yn rhagofalus, y llygrwr sy'n talu, ac unioni yn y tarddle. Er na fydd yr egwyddorion hyn yn gymwys bellach ar ôl inni ymadael â'r UE, mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn sicrhau y bydd deddfwriaeth yr UE yn parhau'n gymwys, ar ffurf gyfraith ddomestig, ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i'r perwyl na ddylai'r ffaith ein bod yn gadael yr Undeb Ewropeaidd olygu y bydd safonau amgylcheddol yn dirywio, ond y dylem, yn hytrach, fod yn gallu parhau i'w gwella.

Drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Cenedlaethau'r Dyfodol, a thrwy greu un corff amgylcheddol statudol, mae gan Gymru eisoes ddeddfwriaeth sydd ymhlith y mwyaf datblygedig yn y byd ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd, a rhai o'r trefniadau gorfodi mwyaf integredig. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cydnabod bod ein deddfwriaeth yn enghraifft o arferion da rhyngwladol. Mae nifer o egwyddorion amgylcheddol yn rhan o'n ffordd gyffredinol o weithredu mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Mae'r egwyddorion hynny'n seiliedig ar yr arferion gorau, ac maent eisoes yn llywio gwaith polisi a phenderfyniadau. Yn eu plith y mae atal, bod yn rhagofalus, graddfa, cydnerthedd, cynnwys y cyhoedd, cydweithio, hirdymor, gwerth, tystiolaeth a rheoli addasol.

Hefyd, mae deddfwriaeth wedi'i phasio yng Nghymru sydd wedi llwyr ddiwygio'r cyrff sy'n gyfrifol am roi deddfwriaeth amgylcheddol ar waith yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys y rôl sydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran gwarchod datblygu cynaliadwy, a rôl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Diben y corff hwnnw yw mynd ati i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

Gan fod gan Gymru set o egwyddorion amgylcheddol a set wahanol o gyrff, mae eisoes yn dechrau o fan gwahanol iawn, sy'n golygu bod gennym ni, yn wahanol i weddill y DU, fframwaith deddfwriaethol y gallwn adeiladu arno. Mae'n hymgynghoriad *Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, yn gofyn barn ynghylch sut i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn yr egwyddorion er mwyn llywio gwaith datblygu polisi yn y dyfodol a phenderfynu sut y byddwn yn mynd ati i oruchwylio, mewn ffordd gydlynol ac effeithiol, sut y bydd Llywodraeth Cymru ac, o bosibl, gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn rhoi cyfraith amgylcheddol ar waith. Y ogystal ag ystyried yr hyn y gallai fod ei angen yng Nghymru, mae'r ymgynghoriad hefyd yn ystyried y trefniadau y gallai fod eu hangen ar lefel y DU.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 18 Mawrth a bydd yn dod i ben ar 9 Mehefin.

---

### Cwestiwn 1 o 29

## Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu gyda'r gwaith o weithredu'r Cynllun Morol unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu?

### Cwestiwn 2 o 29

## Sut gallai Cymru wella iechyd a chydnerthedd ecosystemau morol er mwyn rhoi rhagor o gymorth i gymunedau arfordirol ffynnu?

### Cwestiwn 3 o 29

## Sut y gallem gefnogi camau ymarferol a fyddai o les i fioamrywiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod ecosystemau morol yn gydnerth?

---

# Y fframwaith cyfreithiol yn rhyngwladol, yn y DU ac yn Nghymru

Mae amryfal haenau o ddeddfwriaeth ryngwladol a chenedlaethol sy'n pennu'r sail gyfreithiol a'r fframwaith ar gyfer sut y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli amgylchedd morol Cymru, ac yn benodol, pysgodfeydd Cymru. Hyd yma, rydym wedi dilyn deddfwriaeth yr UE, a negodwyd ac y cytunwyd arni gan yr 28 o Aelod-wladwriaethau. Mae llawer o'r ddeddfwriaeth y mae'r rheini sy'n defnyddio'r môr yn cydymffurfio â hi ar hyn o bryd mewn perthynas â'r amgylchedd morol yn deillio o'r UE ac o'r peirianwaith sydd ganddo i fodloni rhwymedigaethau rhyngwladol, fel UNCLOS (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr). Rhaid i'r rheini sy'n defnyddio'r môr gydymffurfio hefyd â rhywfaint o ddeddfwriaeth y DU yn ogystal â deddfwriaeth Cymru (gan gynnwys is-ddeddfau gan y cyn Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr yng Nghymru). Mae'n ddarlun cymhleth sydd wedi datblygu dros flynyddoedd lawer.

Ein prif amcan yw sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes (boed yn ddeddfwriaeth Ewropeaidd, y DU neu Gymru) yn parhau i weithio pan fyddwn yn gadael yr UE. Mae hynny'n hollbwysig er mwyn inni fedru masnachu a pharhau i reoli dyfroedd Cymru. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i sefydlu nifer o offerynnau statudol a fydd yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn parhau i weithio ar ôl inni adael yr UE.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â physgodfeydd yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd drwy ddeddfwriaeth yr UE ond mae rheoli pysgodfeydd, ar y cyfan, yn swyddogaeth sydd wedi cael ei datganoli'n llawn i Lywodraeth Cymru. Mae'r DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi bod yn cydweithio i ddiffinio cyfres o egwyddorion lefel uchel ar gyfer y DU ar lywodraethu a rheoli pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn cydnabod, gan ein bod yn defnyddio adnodd cyffredin, fod y camau a gymerwn yn rhai cyd-ddibynnol a bod angen i unrhyw atebion fod yn briodol i Gymru, i'r DU gyfan, ac ar lefel ryngwladol. Aed ati i ddatblygu ffyrdd o gydweithio sy'n parchu datganoli ac sydd hefyd yn sicrhau canlyniadau cyffredin. Yn eu plith y mae fframweithiau a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt ar y cyd, yn ogystal â chadw a gwella'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Cytunwyd eisoes i gydweithredu mewn meysydd sy'n gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd, gan gynnwys:

- Rheoli a Gorfodi
- Rheoli capasiti'r fflyd a chyfleoedd pysgota
- Safonau cyffredin mewn perthynas â chasglu data
- Gwyddorau pysgodfeydd.

Bwriedir rhoi'r fframwaith pysgodfeydd ar waith drwy amryfal ddulliau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol, gan gynnwys:

- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
- Concordatau newydd
- Cytundebau partneriaeth
- Amcanion a ddatblygir ar y cyd ar gyfer pysgodfeydd.

Mae Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU wedi cytuno i gydweithio ac i sicrhau cyd-ddealltwriaeth am yr holl faterion hyn wrth inni baratoi i adael yr UE. Wedi dweud hynny, rydym am gadw'r gallu i gyflwyno polisïau gwahanol os dyna fydd o'r budd mwyaf i Gymru (gan barchu'r setliad datganoli). Bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli pysgodfeydd Cymru er budd pennaf Cymru. Byddwn yn cytuno ar goncordatau newydd ac yn cydweithio os bydd hynny o fudd i Gymru, ac yn nodi'r meysydd hynny lle y dylai Cymru ddatblygu ei pholisïau a'i deddfwriaeth ei hun.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol llawn dros bysgodfeydd ym mharth Cymru – sef yr ardal o fôr Cymru sydd ymhellach na 12 milltir fôr o'r lan. Mae hynny i'w gyferbynnu â'r sefyllfa yn yr Alban. Mae ganddi hi'r cymhwysedd hwnnw. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio at ddatrys yr anghysondeb hwn drwy Fil Pysgodfeydd y DU. O gael cymhwysedd deddfwriaethol llawn ar draws parth Cymru, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu deddfu

er mwyn sicrhau cysondeb o ran mesurau rheoli pysgodfeydd ar draws parth Cymru. Byddai hynny o fudd i gymunedau arfordirol yng Nghymru. Bydd yn fodd hefyd i sicrhau bod y pwerau sydd gan y Cynulliad i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn cyd-fynd â'r meysydd lle mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb rheoli eisoes.

Mae Bil Pysgodfeydd y DU, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd, yn ceisio darparu ystod o bwerau i Weinidogion Cymru fedru rheoli'n pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy ar ôl inni ymadael â'r UE. Mae'r Bil hefyd yn nodi'r sail ar gyfer fframwaith rheoli pysgodfeydd rhwng y pedair gweinyddiaeth pysgodfeydd. Mae'r Bil yn nodi set gyffredin o 'amcanion ar gyfer pysgodfeydd', ac yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaethau pysgodfeydd fynd ati ar y cyd i ddatblygu 'Datganiad ar y Cyd ar Bysgodfeydd' a fydd yn nodi polisïau pob un o'r gweinyddiaethau, a pholisïau ar y cyd pan fo hynny'n briodol, ar gyfer cyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd

Wrth inni ysgrifennu'r ddogfen hon, roedd yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd yn cynnwys:

- Yr amcan cynaliadwyedd
- Yr amcan bod yn rhagofalus
- Amcan yr ecosystem
- Yr amcan tystiolaeth wyddonol
- Yr amcan taflu'n ôl
- Yr amcan mynediad cyfartal.

Mae diffiniad o bob un o'r amcanion hyn yn y Bil. Bwriedir cydweithio â rhanddeiliaid o bob rhan o'r DU wrth ddatblygu'r Datganiad ar y Cyd ar Bysgodfeydd, a bydd yn ganolbwynt ar gyfer cydweithio ar draws y DU yn y dyfodol.

## Rheoli Pysgodfeydd

### Mae gan ddiwydiant pysgota Cymru dros 400 o gychod trwyddedig sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, a hynny mewn cymunedau bach gwledig yn aml.

Y bwriad wrth i Aelod-wladwriaethau'r UE fynd ati i negodi cyfleoedd pysgota blynyddol yw sicrhau bod stociau a rennir yn cael eu pysgota mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r trafodaethau hyn yn seiliedig ar asesiadau gwyddonol o'r stociau allweddol sy'n cael eu cynnal gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES). Wrth iddo roi ei gyngor blynyddol, bydd ICES yn pennu lefelau priodol ar gyfer pysgota cynaliadwy drwy bennu'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Pwynt cyfeirio biolegol yw'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf sy'n caniatáu i'r nifer mwyaf posibl o bysgod gael eu lladd drwy bysgota heb i hynny gael effaith andwyol ar ba mor gynhyrchiol yw'r stoc. Mae cyrraedd y lefel a bennwyd o ran y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf yn un o amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC), sy'n bolisi y mae'r holl Aelod-wladwriaethau wedi cytuno i gadw ato.

Nod y PPC yw rheoli'r stociau pysgod a rennir ar draws dyfroedd Ewrop. Pan fyddwn yn ymadael â'r UE, bydd llawer o'r dulliau rheoli sydd yn y PPC yn cael eu cadw drwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac yn dod yn gyfraith y DU neu'n fesurau cyfatebol a gaiff eu datblygu mewn cyfraith. Os bydd y DU yn gadael yr UE ar ôl cael cytundeb, bydd y DU yn dechrau ar gyfnod gweithredu a fydd yn debygol o barhau tan fis Rhagfyr 2020. Er y bydd y DU yn wladwriaeth arfordirol pan fydd yn gadael ac er na fydd yn un o aelod-wladwriaethau'r UE, nod y DU ar hyn o bryd (yn ystod y cyfnod gweithredu hwnnw) fydd adlewyrchu'r PPC mor agos â phosibl. O dan y telerau hyn, bydd trafodaethau i negodi cytundeb gwladwriaethau arfordirol rhwng y DU a'r UE (a Norwy ac Ynysoedd Ffaröe) yn dechrau yn 2020 er mwyn i'r cytundeb hwnnw gael ei weithredu o 2021 ymlaen.

Mae'r UE yn rheoli llawer o'r stociau masnachol allweddol drwy bennu Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir (TACs) sy'n seiliedig ar asesiadau ICES. Mae'r Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir yn cael eu rhannu rhwng gwledydd yr UE ar ffurf TACs a chwotâu neu, o roi enw arall iddynt, cyfleoedd pysgota. Ar gyfer pob math gwahanol o stoc, dyrennir canran wahanol i bob un o wledydd yr UE ar sail arferion pysgota hanesyddol. Yr enw a roddir ar hyn yw sefydlogrwydd cymharol. Mae'r DU yn cael cyfran o gyfanswm y Ddalfa Fwyaf a Ganiateir ac mae'r ganran honno'n cael ei rhannu wedyn rhwng y 4 gweinyddiaeth y DU. Pan bennwyd cyfrannau o dan y drefn sefydlogrwydd cymharol, nid oedd cychod y DU yn canolbwyntio ar y rhywogaethau sydd i'w gweld yn ei Pharth Economaidd Neilltuedig (EEZ). O'r herwydd, o dan y drefn hon, mae gan aelod-wladwriaethau eraill yr UE ganran uwch o'r stoc sydd ym Mharth Economaidd Neilltuedig y DU nag sydd gan y DU ei hun.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd pysgota sy'n deillio o gyfran cwota genedlaethol y DU yn cael eu dosbarthu'n awtomatig drwy ganrannau rhagnodedig rhwng cychod mwy o faint sy'n eiddo i sefydliadau cynhyrchwyr. Yr enw ar y cyfrannau hyn yw Dyraniadau Cwota Sefydlog (FQA).

Mae concordat pysgodfeydd y DU yn nodi sut y mae'r Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir yn cael eu rhannu yn y DU, ac mae'n cynnwys cytundebau sy'n caniatáu ar gyfer gwahaniaethau rhwng pob un o'r gweinyddiaethau pysgodfeydd o ran sut y maent yn llunio polisi. Mae'r concordat hwnnw wedi bod mewn grym ac yn weithredol ers 2012. Mae'r concordat yn cynnal sefyllfa hanesyddol o bysgota ar sail hanes blaenorol, pan nad oedd gan Gymru, ar y pryd, fawr o gyfle i bysgota am rywogaethau cwota. O'r herwydd, ychydig yn unig o werth y mae cymunedau arfordirol yn ei gael o'r rhywogaethau cwota oddi ar eu harfordir.

Mae'r dalfeydd sydd ar gael yn nyfroedd Ewrop yn cael eu dyrannu i'r DU ar hyn o bryd ar sail y drefn sefydlogrwydd cymharol (sy'n seiliedig ar ddalfeydd hanesyddol). Mae cysylltu stociau â pharth,

sef y dewis arall, yn golygu bod modd ystyried yr adnoddau pysgodfeydd sydd ar gael ym mharth pob gwladwriaeth arfordirol. Oherwydd newidiadau i batrymau pysgota a lleoliadau stociau ers sefydlu'r drefn sefydlogrwydd cymharol (mae llawer o stociau wedi bod yn symud i'r gogledd), nid yw cyfrannau hanesyddol a bennwyd o dan y drefn sefydlogrwydd cynharol yn adlewyrchu lle mae'r stociau i'w gweld ar hyn o bryd. Gallai cysylltu stociau â pharth fod yn fodd i wneud hynny, gan ddibynnu ar ansawdd y dystiolaeth wyddonol.

O droi cefn ar y drefn sefydlogrwydd cymharol ar y lefel ryngwladol, byddai fflyd Cymru yn cael ychydig o gyfleoedd pysgota ychwanegol. Fodd bynnag, yr unig ffordd o sicrhau cyfran decach i fflyd Cymru fyddai newid sut y mae cwotâu'n cael eu rhannu rhwng gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU. Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai unrhyw bysgod ychwanegol a fydd yn ganlyniad i'r trafodaethau rhwng y gwladwriaethau arfordirol gael eu brigdorri a'u defnyddio i ddileu unrhyw anghyfartaledd hanesyddol rhwng sectorau gwahanol o'r fflyd. Dylai hynny, yn ei dro, fod o fudd i gymunedau arfordirol Cymru.

Aed ati yn adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru,'Implication of Brexit for Fishing Opportunities in Wales', i ystyried dyfodol cwotâu. Yn ôl yr adroddiad hwnnw, byddai 'A shift in the division of fishing opportunities to be based on zonal attachment would be a clear benefit to the Welsh fishing fleet'. Canfu hefyd "Wales could stand to gain a significant quantity of quota if the Welsh EEZ is used to inform the division of gains in EU quota amongst the UK nations, or extending this further to the division of quota by UK vessels as well".

Yn ogystal â Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir, mae amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cynnwys gweithredu'r rhwymedigaeth glanio, y cyfeirir ato'n aml fel y gwaharddiad ar waredu pysgod. O dan y rhwymedigaeth glanio, mae gofyn glanio'r holl rywogaethau masnachol rheoleiddiedig a gaiff eu dal, a rhaid iddynt gael eu cyfrif at y cwota.

Mae Brexit yn golygu y bydd y DU a Chymru yn gadael y PPC ac y bydd angen inni benderfynu pa agweddau ar fframwaith y PPC a'r prosesau cyffredinol ar gyfer rheoli pysgodfeydd y byddwn am eu cadw. Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried hefyd sut y bydd newidiadau i bolisïau penodol ar gyfer Cymru yn effeithio ar y DU yn ei chyfanrwydd, yn ogystal ag ar goncordat 2012. Bydd yn rhaid wrth drafodaethau manwl a chytundeb ar lefel y DU ar unrhyw newidiadau sylweddol. Mae'r ffeithlun hwn yn helpu i ddangos nifer y cychod, a maint y cychod, sydd yn y fflyd, a hefyd werth y rhywogaethau sy'n fwyaf gwerthfawr i ddiwydiant pysgota Cymru.


Mae Gweinyddiaethau Pysgodfeydd y DU yn cydweithio i negodi cyfleoedd pysgota a'r canlyniad gorau ar gyfer pob rhan o'r DU ac ar gyfer eu cenedl eu hunain. Gallai hynny fod yn batrwm ar gyfer sut y gallai pedair rhan y DU gydweithio ar ôl inni adael yr UE. Oherwydd bod angen i'r rhan fwyaf o stociau pysgod gael eu hasesu ar raddfa ryngwladol, bydd Cymru, gan ei bod yn rhan o'r DU, yn parhau i ddibynnu ar gyngor gwyddonol a roddir gan gyrff fel ICES.

Heblaw am ein hymrwymiadau o dan UCLOS, mae yna hefyd gytuniadau eraill megis OSPAR (Confensiwn Oslo-Paris ar warchod yr amgylchedd morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd), sef y ffordd y mae'r DU a 14 o lywodraethau eraill a'r UE yn cydweithredu i warchod yr amgylchedd morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd. Rydym wedi ymrwymo hefyd i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Hyd yn oed y tu allan i'r UE, rydym yn rhan o gymuned ehangach o genhedloedd sy'n pysgota ac sydd wedi penderfynu bod gwarchod ein hadnoddau morol, a sicrhau eu bod yn gynaliadwy, yn un o'n prif flaenoriaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arni yn yr holl feysydd hyn a bydd angen ystyried yr holl ffactorau hyn wrth fynd ati i ddatblygu polisi yn y dyfodol.

# Pysgodfeydd Môr a Dyframaethu yng Nghymru

Mae pysgota môr a dyframaethu yn werth miliynau o bunnoedd i economi Cymru ac maent yn cefnogi cannoedd o swyddi ar hyd arfordir Cymru.




Ystadegau dyframaethu 2016 (CEFAS).
Ystadegau glanio (Ystadegau Pysgodfeydd Môr y Du 2017.
* Y rhif yn cyfeirio at gychod cofrestredig yng Nghymru.
† Mae Cythreuliaid y Môr a Lledod Mair yn cael eu dal yn bennaf gan longau treillio ar y môr mawr/mewn dŵr dwfn. Cafodd rhywogaethau eraill eu glanio gan fflydoedd domestig glannau Cymru.

# Pysgodfeydd Cynaliadwy

**Ar hyn o bryd, y PPC sy'n gosod y fframwaith ar gyfer rheoli'r rhan fwyaf o'n stociau pysgod mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r stociau hynny'n rhai y gellir eu hadnewyddu ond bydd pen draw arnynt os na chânt eu rheoli'n briodol.**

Bwriad polisi'r UE ar hyn o bryd yn cynnal neu wella cynhyrchiant drwy symud at bysgota yn unol â lefelau'r Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir. Mae perthynas agos rhwng y polisi hwn ac egwyddorion rhyngwladol UNCLOS.

## Gwella pysgota cynaliadwy yn yr hirdymor

Mae hanes hir i bysgota yng Nghymru ac o'r herwydd, nid yw'n debygol y daw ardaloedd newydd sydd heb eu pysgota i'r amlwg. Ond wedi dweud hynny, mae'n bosibl y gwelwn stociau newydd toreithiog yn y blynyddoedd sydd i ddod o ganlyniad i amgylchiadau naturiol neu'r newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, y bwriad, wrth gynllunio, fydd hoelio sylw ar wella cryfder economaidd y diwydiant pysgota yng Nghymru, ar wella cynaliadwyedd hirdymor stociau allweddol o bysgod cregyn a, thros amser, drwy negodi cyfran fwy o'r stociau, ar arallgyfeirio i bysgota am rywogaethau eraill. Y nod fydd ceisio ychwanegu at werth economaidd yr hyn sy'n cael ei ddal eisoes ond gan fynd ati ar yr un pryd i ddod o hyd i gyfleoedd i arallgyfeirio i rywogaethau cynaliadwy eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella mesurau a fydd yn sicrhau y bydd modd pysgota'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Yn eu plith y mae lleihau'r darnio sydd i'w weld yn y sector, rhoi rhagor o gyfrifoldeb i bysgotwyr dros reoli'r amgylchedd arfordirol, a gwella trefniadaeth y sector a'r gynrychiolaeth sydd ganddo.

Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota i ystyried y materion hyn yn fanylach a byddwn yn ystyried pa fentrau y dylid eu sefydlu er mwyn sicrhau bod pysgota'n parhau'n gynaliadwy yng Nghymru yn yr hirdymor.

## Parhau ag egwyddorion y Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir a gwella systemau rheoli cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i fodloni'r gofynion o ran Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir yn unol ag amserlenni'r UE, ac mae'r angen i wneud hynny yn cael ei nodi yn y rhwymedigaethau rhyngwladol cyffredinol. Ond wedi dweud hynny, nid yw'n golygu na ddylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd eraill o reoli'n gynaliadwy wrth iddi fynd ati i lunio strategaeth pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol, cyhyd â'u bod cyd-fynd â'r raddfa a'r dull rhyngwladol o asesu stociau ac nad ydynt yn peryglu'n sefyllfa negodi wrth inni drafod er mwyn sicrhau cytundebau rhwng gwladwriaethau arfordirol yn y dyfodol.
Mae Brexit yn gyfle inni feddwl yn wahanol am sut i reoli'n pysgodfeydd ac i wella cynaliadwyedd yn gyffredinol.

## Gwella'r ffordd y caiff pysgodfeydd eu rheoli yn y dyfodol

Mae gan Weinidogion Cymru ystod o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar reoli pysgodfeydd yng Nghymru. Fodd bynnag, prin yw eu pwerau i gynnig hyblygrwydd gweinyddol a byddai gwella'r pwerau hynny'n beth da fel y bo modd mynd ati i addasu'r gyfundrefn reoli yn gynt er mwyn inni fedru ymateb i amgylchedd morol deinamig sy'n newid yn gyflym. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau pysgota gan gychod nad ydynt yn rhai pysgota trwyddedig.

Byddai gwell pwerau i wneud hynny yn ein galluogi i reoli'n hadnoddau morol yn well yng Nghymru, gan wneud hynny mewn amser real ac mewn ffordd hyblyg. Wrth ymgynghori am reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylai gael pwerau galluogi ychwanegol a fyddai'n caniatáu mwy o hyblygrwydd gweinyddol wrth reoli



pysgodfeydd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau rheolaeth hyblyg ar ein pysgodfeydd ac rydym yn awyddus i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwella mwy ar y pwerau presennol. Wrth inni fynd ati i ddatblygu'r achos o blaid deddfwriaeth newydd, byddwn yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno mesurau i wella cynefinoedd a strategaethau cydleoli a fydd yn ceisio cynnal a gwella ymhellach y ffordd y byddwn yn rheoli'n hadnoddau.

Byddwn yn gwella'n harferion rheoli cynaliadwy ar gyfer rhywogaethau sydd â gwerth masnachol. Ar hyn o bryd, dim ond rhywogaethau penodol sy'n dod o dan y system gwotâu. Y bwriad, dros amser, a chan ddibynnu ar y dystiolaeth a fydd ar gael, yw cyflwyno dulliau rheoli addasol ar gyfer elfennau eraill yn yr amgylchedd morol sydd â gwerth masnachol. Byddai dulliau rheoli addasol o'r fath yn cyfrannu at reoli rhywogaethau morol mewn ffordd gynaliadwy ac yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau. Y bwriad yn y lle cyntaf yw rhoi blaenoriaeth i'r rhywogaethau sydd bwysicaf i Gymru ac yna datblygu ffordd haws o agor a chau pysgodfeydd. Ond os gwelir, ar ôl arloesi a datblygu cynhyrchion newydd, fod gan rywogaeth forol newydd werth masnachol, gellid defnyddio dulliau rheoli addasol ar ei chyfer hithau hefyd. Byddai costau'n gysylltiedig ag ymchwil wyddonol o'r fath a bydd angen penderfynu sut i flaenoriaethu cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

---

### Cwestiwn 4 o 29

Pa fentrau y gellid eu defnyddio i wella cynaliadwyedd hirdymor pysgodfeydd yng Nghymru?

### Cwestiwn 5 o 29

Sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau mwy o hyblygrwydd gweinyddol a bod yn fwy ymatebol wrth reoli pysgodfeydd?

### Cwestiwn 6 o 29

Sut y dylid cyflwyno arferion rheoli addasol ar gyfer amrywiaeth ehangach o rywogaethau? Pa rywogaethau ddylai gael blaenoriaeth?

---

# Cyfleoedd pysgota

**Mae'n harfordiroedd a'n moroedd yn asedau naturiol anhygoel sy'n cyfrannu miliynau o bunnoedd at economi Cymru. Maent hefyd yn cynnal miloedd o swyddi ac yn rhoi inni dreftadaeth a diwylliant cyfoethog.**

Mae gan ddiwydiant pysgota Cymru dros 400 o gychod trwyddedig sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, a hynny mewn cymunedau bach gwledig yn aml.

Yn y DU, mae cyfran fawr o'r cyfleoedd pysgota yn cael ei rhannu ar sail y Dyraniad Cwota Sefydlog (FQA) sy'n gysylltiedig â thrwyddedau pysgota. Ar draws y DU, mae pysgotwyr wedi gwerthu a lesio'r Dyraniadau Cwota Sefydlog sy'n gysylltiedig â thrwyddedau er mwyn cael mwy o gyfleoedd pysgota. Mae prynu a gwerthu fel hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae cyfleoedd pysgota yn nwyddau gwerthfawr. O ganlyniad i'r arferion hanesyddol hyn, cyfran fach iawn o'r cyfleoedd pysgota am rywogaethau cwota sydd gan fflyd Cymru erbyn hyn.

Yn aml, cychod mwy o faint sy'n eiddo i Sefydliadau Cynhyrchwyr sydd â'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd pysgota hyn, neu maent mewn 'cronfa' a gedwir gan weinyddiaethau pysgodfeydd ar gyfer cychod llai. Mae hynny wedi ffafrio pysgota mwy diwydiannol a nomadig ac yn golygu bod llai o gyfleoedd i bysgotwyr lleol ar raddfa fach ac i gymunedau arfordirol. O'r herwydd, nid yw cymunedau arfordirol a physgotwyr yn tueddu i elwa ar yr adnoddau naturiol sydd i'w cael ar hyd eu glannau. Nid yw hyn wedi bod o fudd i Gymru o gwbl. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o fflyd Cymru yn fach, nid yw'n pysgota y tu allan i'r parth 12 milltir fôr (nm), ac nid yw'n cael budd o'r adnoddau sydd ar gael ymhellach allan i'r môr.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cyfleoedd pysgota gael eu rhannu'n decach o fewn y diwydiant ac y dylent fod o fudd i'r cymunedau arfordirol ehangach y maent yn eu gwasanaethu. Mae gan yr egwyddor hon nifer o oblygiadau o ran sut y byddwn yn arfer stiwardiaeth ar yr adnoddau hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y rhagdybiaeth hon yn sail i drafodaeth genedlaethol dros y blynyddoedd sydd i ddod wrth i oblygiadau ymadael â'r UE ddod yn glir ac wrth inni benderfynu ar ein perthynas â'r UE yn y dyfodol.

Er enghraifft, byddwn yn mynd ati bellach i ystyried y rôl briodol y dylai pysgotwyr a'r gymdeithas ehangach ei chwarae o ran arfer stiwardiaeth ar y adnodd pwysig hwn. Ers 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli pysgodfeydd Cymru yn uniongyrchol ac wedi cael cyngor rhanddeiliaid gwahanol wrth iddi wneud hynny drwy Grŵp Cynghori Cymru ar y Môr a Physgodfeydd. Bydd angen inni ystyried ai'r trefniant hwn fydd y ffordd orau o barhau i wneud hynny wrth inni fynd at i ddatblygu mwy ar gyd-reoli.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig pum datblygiad cysylltiedig yn y maes hwn:

### Bydd stociau pysgod yn cael eu rheoli er lles Cymru a chymunedau arfordirol Cymru

Gallai unrhyw gyfleoedd pysgota ychwanegol a ddaw ar gael i Gymru fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hanesyddol a welwyd wrth ddyrannu cyfleoedd pysgota, a gallent hefyd sicrhau bod diwydiant pysgota Cymru yn cael cyfran decach. Byddai'r cyfleoedd hyn yn cael eu rheoli ar ran pobl Cymru ac, yn benodol, ar ran ein cymunedau arfordirol. Gallai manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd gynnwys cyflwyno system reoli newydd lle y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu diffinio ac addasu telerau dros amser er mwyn cydnabod amodau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol newydd.

### Sicrhau cyfran fwy o gyfleoedd pysgota

Ar hyn o bryd, mae dyraniadau Cymru yn cael eu pennu gan gytundebau a wnaed o dan Goncordat Pysgodfeydd y DU 2012. Yng Nghymru, dim ond i'r sector o fflyd gofrestredig Cymru sy'n cynnwys

cychod 10 metr a llai, ac i sefydliadau nad ydynt yn gynhyrchwyr, y mae rhan Cymru o gyfran y DU o gwota'r UE yn cael ei dyrannu.

O'r herwydd, mae Cymru yn gallu manteisio ar lai nag 1% o'r prif stociau pysgod ar wely'r môr sydd ar gael i gychod y DU yn nyfroedd yr UE (gan gynnwys Parth Economaidd Neilltuedig y DU), er y gall y ganran hon fod yn 15-20% o'r Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir mewn rhai ardaloedd penodol fel Môr Hafren. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu negodi gyda rhannau eraill o'r DU er mwyn cael cyfran fwy o'r cyfleoedd pysgota yn nyfroedd y DU, gan gynnwys ym mharth Cymru.

Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru,'Implications of Brexit for Fishing Opportunities in Wales', yn amlinellu'r achos o blaid cyfran decach o gyfleoedd pysgota i Gymru.

## Buddsoddi yn niwydiant pysgota Cymru er mwyn iddo fedru manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ychwanegol

Bydd cael gafael ar gyfleoedd pysgota newydd yn her yng Nghymru. Bydd unrhyw gyfle newydd yn gysylltiedig â physgod asgellog a rhywogaethau eraill a welir yn bennaf y tu allan i'r parth 12nm ac sydd, felly, y tu hwnt i gyrraedd fflyd bresennol Cymru. Byddai hynny'n golygu y byddai angen i fusnesau yng Nghymru ddiweddaru eu cychod neu fuddsoddi mewn cychod newydd sy'n gallu gwneud mwy. Mae'n bosibl na fydd hynny'n realistig yn y tymor byr oherwydd y bydd llai o gyfle i fuddsoddi yn y diwydiant ac am nad oes gan fusnesau'r hyder i ehangu.

Er hynny, byddai modd trefnu bod cyfleoedd pysgota newydd ar gael i gychod eraill yn y tymor byr er mwyn creu budd economaidd, a gallai hynny, yn ei dro, fod o gymorth i fuddsoddi mewn helpu sector pysgota Cymru i addasu. Efallai y daw cyfleoedd i arallgyfeirio i feysydd eraill.

## Rheoli rhywogaethau atal pysgota yn fwy effeithiol

Term yw rhywogaeth atal pysgota sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio rhywogaeth, mewn pysgodfa gymysg, sydd â chwota isel ac a all olygu bod yn rhai i gwch roi'r gorau i bysgota hyd yn oed os oes ganddo gwota ar ôl ar gyfer rhywogaethau eraill. Mae hon yn risg benodol os defnyddir rhwymedigaeth glanio er mwyn rheoli pysgodfeydd. Weithiau, mae rhywogaethau atal pysgota yn arwain at gau pysgodfeydd cyn pryd. Mae Llywodraeth Cymru am weithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynigion a fydd yn lleihau'r risg hon ond a fydd, ar yr un pryd, yn sicrhau bod pysgodfeydd yn parhau'n gynaliadwy.

## Sicrhau bod y parth 0-12nm o amgylch Cymru yn cael ei reoli er budd fflyd y glannau

Ar hyn o bryd, o dan reolau'r UE, ystyrir bod Parth Economaidd Neilltuedig (EEZ) y DU yn 'ddyfroedd cymunedol'. Felly, nid oes gan gychod o'r DU fwy o hawliau i bysgota ym Mharth Economaidd Neilltuedig (EEZ) y DU na chychod o'r UE. Mae hawliau pysgota amlochrog yn seiliedig ar gytundebau hanesyddol. Ar hyn o bryd, dim ond cychod o'r aelod-wladwriaeth arfordirol sy'n cael pysgota yn y parth 0-6nm. Mae gan rai o aelod-wladwriaethau'r UE hawliau pysgota ym mharth 6-12nm Cymru, er enghraifft, mae cychod o Wlad Belg, Ffrainc ac Iwerddon yn cael mynd i oddeutu hanner yr ardal honno.

Yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y dylai'r parth 0-12nm o amgylch y DU gael ei reoli'n bennaf ar gyfer fflyd y glannau, sy'n llai. Byddai angen mesurau rheoli pysgodfeydd a fyddai'n fwy priodol ar gyfer eu patrymau pysgota nhw, a dylent fod o fudd i gymunedau arfordirol.

### Cwestiwn 7 o 29

Sut, yn eich barn chi, y gellid rheoli stociau pysgod er budd ehangach pobl Cymru a'u cymunedau arfordirol?

### Cwestiwn 8 o 29

Pa fath o drefniadau yr hoffech eu gweld i helpu fflyd Cymru i addasu er mwyn iddi fedru manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd pysgota newydd?

### Cwestiwn 9 o 29

Sut gallai'r diwydiant a chymunedau arfordirol greu cyfleoedd cyllido neu ariannol cynaliadwy ac o le y gallai'r cyfleoedd hynny ddod?

### Cwestiwn 10 o 29

Beth, yn eich barn chi, y gellid ei wneud i reoli rhywogaethau ‘atal pysgota’ mewn ffordd fwy effeithiol?

# Pysgod cregyn a dyframaethu

Mae'r rhan fwyaf o ddiwydiant bwyd môr Cymru yn gysylltiedig â physgod cregyn, ac mae dyframaethu yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyfanswm gwerth y pysgod cregyn sy'n cael eu dal. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector hwn yn parhau i dyfu mewn ffordd gynaliadwy a bod dulliau rheoli priodol yn cael eu harfer er mwyn cynnal ein poblogaethau naturiol o bysgod cregyn a physgod cregyn a ffermir yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ffurf cwotâu ar faint o bysgod cregyn y caniateir eu dal, ac yn hanesyddol, mae fflyd Cymru wedi dibynnu ar yr adnodd hwn fel ei phrif ffynhonnell incwm (ac mewn ambell achos ei hunig ffynhonnell incwm). Mae llai o gyfleoedd i bysgota am bysgod asgellog, a'r ffaith bod y cychod yn llai datblygedig o ran yr hyn y gallant ei wneud, wedi chwarae rhan yn y ddibyniaeth honno hefyd. Pan fydd Cymru yn gadael yr UE, mae'n amlwg y bydd pysgod cregyn yn parhau i chwarae rhan fawr mewn unrhyw bolisi pysgodfeydd yn y dyfodol, ac mae cryn botensial i ddatblygu'n diwydiant dyframaethu. Mae hynny'n golygu ei bod yn hollbwysig diogelu'r adnodd hwn a chreu proses reoli deg a syml ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Twf cynaliadwy mewn cynhyrchion pysgod cregyn a dyframaethu

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pysgodfeydd pysgod cregyn a dyframaethu yn parhau i dyfu mewn ffordd gynaliadwy. Mae hynny'n helpu i greu sail ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac arfordirol, ac mae gan y sectorau hyn gryn botensial i wneud mwy o gyfraniad.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y broses o wneud cais am Orchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio, er mwyn i un defnyddiwr yn unig gael defnyddio gwely'r môr ar gyfer dyframaethu am gyfnod penodol, yn un hirfaith ar hyn o bryd. Erbyn hyn, efallai, gellid barnu nad y drefn o greu Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfeydd Cregyn o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yw'r ffordd fwyaf priodol o reoli.

Rydym am arfer system reoli addasol, lle bydd modd rheoli pysgodfeydd cregyn a ffermio pysgod cregyn mewn ffordd hyblyg er mwyn ymateb yn gyflym pan fo angen newid polisïau. Rydym am gyflwyno gwell cyfundrefn rheoli ar gyfer dyframaethu er mwyn hwyluso twf cryfach yn y sector pysgod cregyn, a rhoi diwedd ar yr amheuon sydd gan y gweithredwyr ar hyn o bryd. Gallai'r gyfundrefn drwyddedu olygu na fydd angen is-ddeddfwriaeth i sefydlu gweithgarwch dyframaethu ac rydym yn awyddus i gydweithio â busnesau dyframaethu i ddeall sut y byddai'r broses hon yn parhau i ddiogelu eu buddsoddiad ond hefyd yn cynnal yr amgylchedd yn ystod oes y cytundeb rheoli.

## Dyframaethu

Dyframaethu yw un o brif sectorau cynhyrchu bwyd y DU ac mae'n helpu i greu sail ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, yn enwedig yn ein cymunedau gwledig ac arfordirol. Heblaw hynny, mae ganddo hefyd gryn botensial i gyfrannu mwy, gan fuddsoddi er mwyn sicrhau ansawdd a diogelu swyddi. Nodwyd yn y fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a hefyd yn y strategaethau Twf Glas ledled Ewrop, fod dyframaethu'n un o'r sectorau twf.

Yn draddodiadol, mae dyframaethu masnachol yng Nghymru er mwyn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl wedi canolbwyntio ar gynhyrchu pysgod cregyn – cregyn gleision yn bennaf – a rhywfaint o gynhyrchu wystrys brodorol ac wystrys y Môr Tawel ar raddfa fach. Ystyrir bod ffermio pysgod cregyn yn ffordd gynaliadwy o gynhyrchu bwyd nad yw'n cael llawer o effaith ar yr amgylchedd. Mae'r sector ffermio pysgod asgellog yn gymharol fach yng Nghymru ac mae'n gyfyngedig i salmonidau mewn pyllau ar y tir ac, yn fwy diweddar, i gyfleusterau pwrpasol o'r radd flaenaf i ailgylchredeg dŵr er mwyn cynhyrchu pysgod glanach ar gyfer y sector ffermio eogiaid.



Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwerth £2.5 miliwn o gyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) wedi cael ei ddyrannu er mwyn helpu amryfal brosiectau dyframaethu arloesol, gan gynnwys cyllid i ddatblygu systemau rhaffau yn y môr i gasglu grawn cregyn gleision ac i dyfu cregyn gleision ymlaen, ac i gomisiynu systemau dyframaethu ar gyfer cynhyrchu cerpynnod a rhywogaethau eraill.

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu dyframaethu yn hoelio sylw ar dri maes craidd – datblygu gweithgarwch newydd a'r gweithgarwch sy'n digwydd eisoes ym maes pysgod cregyn, cefnogi gwaith newydd a gwaith sy'n cael ei wneud eisoes i gynhyrchu mwy o bysgod asgellog, a hyrwyddo arallgyfeirio er mwyn manteisio ar rywogaethau masnachol hyfyw mewn ardaloedd morol a mewndirol.

---

### Cwestiwn 11 o 29

A ydych yn cytuno â'n cynigion i reoli pysgod cregyn mewn ffordd hyblyg? A allwch roi enghraifft lle byddai rheolaeth hyblyg yn fantais?

### Cwestiwn 12 o 29

A ydych yn cytuno â'n cynigion i gyflwyno trefn reoli newydd ar gyfer dyframaethu? A oes unrhyw swyddogaethau eraill a ddylai ddod o dan y drefn reoli, yn eich barn chi?

### Cwestiwn 13 o 29

Sut y gallai Cymru gynhyrchu mwy ym maes dyframaethu? Pa rôl sydd gan fusnesau Cymru a Llywodraeth Cymru i'w chwarae yn y broses hon?

---



Mae dwy nodwedd allweddol i ddiwydiant bwyd môr Cymru sy'n golygu ei bod yn wahanol i'r diwydiant yng ngweddill y DU. Yn gyntaf, pysgod cregyn, yn hytrach na physgod asgellog, yw sail y diwydiant. Yn ail, mae'r rhan fwyaf o'n cynnyrch yn cael ei allforio'n fyw, heb ei brosesu ac mae bron y cyfan ohono yn mynd i farchnad y DU; nid oes gan y diwydiant ychwaith bron dim gallu i'w gadw mewn cyflwr bwytadwy nac i'w brosesu. Nodweddir sector bwyd môr Cymru gan fusnesau micro a bach sy'n bwysig i gymunedau arfordirol.

Mae hyn yn golygu bod effeithiau posibl Brexit ar fasnach pysgodfeydd a dyframaeth yn wahanol i'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU, a gellid dadlau hefyd eu bod yn rhai mwy arwyddocaol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio lliniaru effaith Brexit ar ddiwydiannau pysgod cregyn a dyframaethu Cymru.

### Rôl allforion yn niwydiannau pysgota a dyframaethu Cymru

Mae pysgod cregyn a dyframaethu yng Nghymru yn creu £8.6 miliwn o werth ychwanegol gros. Mae gweddill y sector dal pysgod gwyllt yn creu £7.1 miliwn o werth ychwanegol gros, ac mae'r sector sy'n prosesu cynnyrch y pysgodfeydd yn creu £2.3 miliwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau dro ar ôl tro o blaid mynediad llawn a dirwystr i farchnadoedd yr UE, oherwydd bod diwydiant bwyd môr Cymru yn dibynnu bron yn llwyr ar allforio. Mae'r rhan fwyaf o'r pysgod a physgod cregyn sy'n cael eu glanio yng Nghymru yn cael eu hallforio. Mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau a werthir o Gymru yn ddibynnol ar allforio; 100% o'r cregyn moch, 90% o'r cregyn gleision a 90% o'r cocos, ac mae llawer iawn o grancod, cimychiaid a chregyn bylchog yn cael eu hallforio. Mae'r bwyd môr sy'n cael ei allforio o Gymru yn werth rhyw £22 miliwn ar hyn o bryd. Mae Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddiwydiant bwyd môr y DU; mae'n cyfrannu bron 22% o gyfanswm y bwyd môr sy'n cael ei allforio o'r DU, o'i fesur yn ôl ei werth.

Pan fydd y DU yn gadael yr UE, mae'n debygol y bydd Cymru yn gadael Marchnad Sengl Ewrop, sy'n cynnwys rhyw 500 miliwn o gwsmeriaid. Mae rhyw 90% o holl gynhyrchion bwyd môr Cymru yn cael eu hallforio i'r UE, yn bennaf i Sbaen, sy'n cymryd bron 57% o gynnyrch bwyd môr Cymru.

Mae'r UE hefyd wedi negodi nifer o gytundebau masnach gyda hyd at 50 o wledydd eraill ym mhedwar ban byd, ar ran yr aelod-wladwriaethau. Ymhlith rhai o fanteision y cytundebau hyn i Gymru y mae’r ffaith nad oes unrhyw dariffau o gwbl wrth fasnachu ag aelodau'r UE, a bod tariffau ffafriol gyda gwledydd eraill; mae'r rhan fwyaf o'r cytundebau'n golygu bod llai o archwiliadau cydymffurfio a llai o waith papur. Mae'r diwydiant cregyn moch yng Nghymru yn arbennig o agored i niwed oherwydd y newidiadau sydd ar ddod; mae 100% o'r ddalfa'n mynd i Dde Korea, ac mae hynny'n 14% o gyfanswm y bwyd môr sy'n cael ei allforio o Gymru.

Yn y dyfodol, heb y cytundebau masnach hyn neu gytundebau i’w holynu, mae'n bosibl y bydd tariffau'n cael eu codi ar allforion o Gymru, a allai eu gwneud yn llai proffidiol neu olygu na fyddant yn hyfyw. Nid yw'r rhywogaethau hyn yn rhai unigryw i Gymru a bydd y rheini a fydd yn mewnforio i wledydd yn yr UE ac i wledydd pellach yn gallu dewis eu darparwyr. Os bydd y darparwyr eraill hyn yn yr UE, ni fydd eu prisiau nhw'n cynnwys tariffau. Bydd angen i fusnesau Cymru ystyried sut i ddygymod â'r costau ychwanegol a fydd yn gysylltiedig â thariffau ychwanegol os ydynt am barhau'n gystadleuol; a bydd hynny'n effeithio ar faint eu helw.

### Yr effeithiau posibl y bydd gadael yr UE yn eu cael ar allforio pysgod cregyn byw a ffres

Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchion Cymru yn cael eu hallforio'n ffres neu'n fyw a gallai newidiadau i lwybrau allforio, a mwy o amser teithio, gael effaith negyddol ar y cynnyrch ac ar ei werth. Mae'r diwydiant yn dibynnu ar gludo cynnyrch i'r farchnad heb i unrhyw beth darfu ar ei daith. Rhaid i gynhyrchion byw a ffres gyrraedd cyn gynted ag y bo modd oherwydd eu bod yn hynod ddarfodus.

Mae materion sy'n gysylltiedig â seilwaith trafnidiaeth yn rhai sydd, yn bennaf, wedi'u cadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Mae'r system yn cynnwys Awdurdodau Porthladdoedd y DU, systemau traffig ffyrdd (yn enwedig i borthladdoedd ar arfordir deheuol Lloegr ac o'u

hamgylch) a'r system o roi hawlenni a thrwyddedau i gludwyr nwyddau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r DU i geisio sicrhau bod y systemau hyn yn addas i'r diben wrth inni adel yr UE.

Unwaith y byddwn wedi gadael yr UE, y disgwyl yw y bydd yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i allforwyr wneud rhagor o waith papur. Bydd hyn yn cynnwys tystysgrifau dalfeydd allforio, tystysgrifau iechyd allforio a dogfennau cysylltiedig eraill. Bydd yn rhaid i allforwyr sicrhau bod yr holl waith papur yn briodol ac yn ei le ac na fydd yn achosi unrhyw oedi wrth deithio. Mae'n debygol y bydd y gofynion allforio i'r UE yn wahanol iawn i'r amodau a'r gofynion allforio presennol. Rôl y Llywodraeth yw rhoi gwybod i'r diwydiant am y gofynion hyn wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid i'r holl allforion byw gael eu hallforio i'r UE drwy Fannau Archwilio ar Ffiniau. Mae'r UE yn gweithio i sicrhau y bydd rhagor o Fannau Archwilio ar Ffiniau, a fydd yn gallu prosesu allforion pysgod cregyn, ar gael yng Ngogledd Ewrop. Ar hyn o bryd, mae allforwyr o Gymru yn defnyddio porthladdoedd nad oes ynddynt fannau archwilio o'r fath ac nid yw'n glir ychwaith a oes digon o gapasiti yn y mannau archwilio sy'n bodoli eisoes.

Goblygiad arall sy'n gysylltiedig ag allforio cynnyrch byw a ffres yw mai ychydig iawn o werth sy'n cael ei ychwanegu at gynhyrchion Cymru, sy'n cyfyngu ar y cyfraniad net y mae'r diwydiant yn ei wneud i economi Cymru. Galw am gynnyrch byw a chynnyrch ffres y mae cwsmeriaid yn yr UE; nid yw defnyddio dulliau fel rhewi i gadw'r bwyd mewn cyflwr da yn briodol ar gyfer pob rhywogaeth ac mae'n golygu bod y cynnyrch yn werth llawer llai. Mae hyn hefyd yn golygu bod llai o opsiynau os amherir ar lwybrau masnach a bod y diwydiant yn dibynnu ar brisiau dyddiol a chyfnewidiol am gynnyrch cynradd.

### Cyfleoedd i bysgod cregyn mewn marchnadoedd newydd

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant i ddod o hyd i gyfleoedd i fwyd môr Cymru mewn marchnadoedd y tu allan i wledydd yr UE. Y bwriad yw ceisio ehangu a thyfu marchnadoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i hyrwyddo bwyd môr Cymru ledled y byd. Ond wedi dweud hynny, o gofio natur allforion byw, mae pellter a'r amser y maent yn ei gymryd i gyrraedd y farchnad yn ffactorau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys mynd i sioeau masnach a hwyluso teithiau masnach. Wrth edrych ar gyfleoedd i dyfu'r sector, gellid rhoi sylw hefyd i wella systemau trafnidiaeth er mwyn cadw cynnyrch yn ffres a lleihau gwastraff. Gallai cyfleoedd eraill godi drwy arallgyfeirio a chreu cynhyrchion â gwerth ychwanegol ar gyfer marchnadoedd allforio eraill.
Mae'n bosibl y gellid ennyn mwy o ddiddordeb yn y cynnyrch hwn yn y farchnad ddomestig.
Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i hyrwyddo galw am gynhyrchion bwyd môr Cymru ymhlith cwsmeriaid yn y gwledydd hyn er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar y farchnad allforio. Byddai'n rhaid wrth newid diwylliannol o ran agweddau at bysgod cregyn, a gallai gymryd sawl cenhedlaeth cyn i'r sector weld unrhyw fudd.

---

**Cwestiwn 14 o 29**

Sut y gellid annog cynhyrchwyr i ddatblygu'r farchnad yn y dyfodol, e.e. marchnadoedd newydd a chynhyrchion newydd?

**Cwestiwn 15 o 29**

Sut y gallai cynhyrchwyr yng Nghymru ennyn mwy o ddiddordeb yng nghynnyrch bwyd môr Cymru ymhlith defnyddwyr yn y DU? A oes gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae yn hyn o beth?

**Cwestiwn 16 o 29**

A ellid ehangu marchnadoedd newydd ar gyfer bwyd môr Cymru y tu allan i'r UE? Os felly, ble a sut?

# Tyfu ac Arloesi

Mae'n hollbwysig bod unrhyw ddiwydiant sy'n wynebu newid yn tyfu ac yn arleosi. Mae Brexit yn gyfle i'r diwydiant pysgota a dyframaethu yng Nghymru weddnewid ei hun.

Mae'r posibilrwydd o fwy o gyfleoedd pysgota, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau y mae galw amdanynt ym marchnadoedd y DU, yn gyfle i ehangu'r diwydiant pysgota yng Nghymru ac i gyflawni rhai o'r amcanion hyn. Fodd bynnag, fel y trafodwyd eisoes, gallai'r heriau sy'n gysylltiedig â gallu'r fflyd fod yn broblem yn y tymor byr. Mae'r sector ffermio pysgod asgellog yn un cymharol fach yng Nghymru ac yn gyfyngedig i salmonidau mewn pyllau ar y tir ac, yn fwy diweddar, i gyfleusterau pwrpasol o'r radd flaenaf i ailgylchredeg dŵr er mwyn cynhyrchu pysgod glanach ar gyfer y diwydiant ffermio eogiaid.

## Ychwanegu Gwerth

Ar raddfa gymharol fach y mae cynhyrchion pysgodfeydd yn cael eu prosesu yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 10 safle prosesu yn cynhyrchu bwyd ar gyfer y farchnad ddomestig. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i greu amgylchedd a fydd yn sbarduno twf ac arloesedd yn y dyfodol. Gall hoelio sylw ar weithgareddau sy'n ychwanegu gwerth gyfrannu at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol. Er hynny, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu ar hyn o bryd oherwydd nad yw llawer o'r cychod sy'n dal bwyd môr Cymru ar hyn o bryd yn glanio'r ddalfa mewn porthladdoedd yng Nghymru. O fynd i'r afael â'r diffyg cyfleoedd pysgota i fflyd Cymru, gallai hynny helpu i arallgyfeirio gweithgareddau pysgota a chreu manteision amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol mewn cymunedau arfordirol a thu hwnt.

## Arallgyfeirio ym maes cynhyrchu bwyd

Bydd angen i'r diwydiant pysgota arallgyfeirio er mwyn sicrhau bod stociau pysgod yn parhau'n gynaliadwy a bod busnesau pysgota a'r cymunedau y maent yn eu cynnal yn parhau'n economaidd hyfyw. Fodd bynnag, gallai'r cyfleoedd hyn fod yn rhaid nad ydym, yn draddodiadol, wedi manteisio arnynt yng Nghymru, ac mae'n bosibl y bydd gofyn i'r diwydiant feithrin sgiliau newydd. Gallai hynny gynnwys hyfforddiant neu becynnau cymorth, a byddai angen eu teilwra er mwyn diwallu anghenion presennol y diwydiant pysgota yng Nghymru, a'r anghenion a fydd ganddo yn y dyfodol.

Bydd dysgu sut i ddefnyddio ystod ehangach o adnoddau morol, a'u gwneud yn broffidiol i bysgotwyr sydd wrthi eisoes, yn gryn her. Bydd yn rhaid i unrhyw ddatblygiadau fodloni'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r gofynion o ran cynaliadwyedd a lleihau'r ddibyniaeth a'r pwysau ar bysgodfeydd sy'n bodoli eisoes, gan greu cymunedau arfordirol iachach a chyfoethocach.

## Cyfleoedd nad ydynt yn gysylltiedig â bwyd

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried cyfleoedd i dyfu drwy edrych ar sut y gallai pysgota am gynhyrchion nad ydynt yn fwyd greu gwerth masnachol. Y bwriad yw bod entrepreneuriaid, academyddion, ymchwilwyr a rhanddeiliaid eraill yn cydweithio'n agos i nodi syniadau arloesol ar sut y gellid defnyddio adnoddau yn yr amgylchedd morol yng Nghymru at ddibenion masnachol, gan wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy. Gallai hynny gynnwys defnyddio sgil-gynhyrchion mewn ffordd arloesol, neu greu cynhyrchion cwbl newydd. Ni fydd y datblygiadau hyn yn digwydd dros nos. Yn ogystal, ni chafwyd penderfyniad terfynol hyd yn hyn am yr amserlen a'r trefniadau ar gyfer ymadael â'r UE; gallai hynny effeithio yn y tymor byr ar allu'r diwydiant i ddechrau manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Gallai arallgyfeirio'r diwydiant pysgota i feysydd nad ydynt yn gysylltiedig â bwyd hefyd gynnwys manteisio ar arbenigedd ac adnoddau morol at ddibenion heblaw pysgota masnachol, neu ddarparu gwasanaethau ar gyfer diwydiannau morol eraill neu ar gyfer Llywodraeth Cymru.



Mae potensial i bysgotwyr chwarae mwy o ran mewn gweithgareddau twristiaeth yng Nghymru, a gallai hynny fod yn ffordd o greu refeniw newydd. Mae twristiaeth yn ffynnu yng Nghymru a'r prif atyniad yw'r arfordir 1,200 cilomedr o hyd. Mae ymgyrchoedd Croeso Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ddenu pobl o fannau ymhellach i ffwrdd i'n harfordir a'n trefi arfordirol. Hoffai Llywodraeth Cymru weld busnesau pysgota yn manteisio mwy ar y cyfle hwn ac yn edrych ar yr opsiynau i ehangu drwy fynd i mewn i'r diwydiant twristiaeth. Gallai hynny hefyd helpu i ddenu'r genhedlaeth nesaf o bysgotwyr i'r diwydiant ac arwain at hyd yn oed mwy o gyfleoedd i arallgyfeirio.

---

### Cwestiwn 17 o 29

Pa rôl y gallai Llywodraeth Cymru ac eraill ei chwarae i alluogi'r diwydiant i ehangu gweithgareddau prosesu a gweithgareddau economaidd eraill? Sut y dylid cynnwys cymunedau arfordirol wrth fynd ati i ddatblygu cyfleoedd newydd?

### Cwestiwn 18 o 29

Sut y gellid gwella'r berthynas rhwng y byd academaidd a'r diwydiant?

### Cwestiwn 19 o 29

Pa gyfleoedd sydd ar gael i dyfu busnesau pysgota yng Nghymru drwy ymgymryd â gweithgareddau eraill, e.e. twristiaeth, darparu gwasanaethau ar gyfer diwydiannau morol a'r Llywodraeth?

---

## Cynaliadwyedd y Fflyd

Mae'r math o gyfleoedd pysgota sydd wedi bod ar gael ers nifer o flynyddoedd yn golygu mai cychod bach, yn bennaf, sydd yn fflyd Cymru. O'r herwydd, mae'r rhan fwyaf o fflyd Cymru yn dibynnu ar bysgod cregyn y glannau fel ei phrif ffynhonnell incwm. Mae newidiadau economaidd gryn dipyn yn fwy tebygol o gael effaith andwyol ar fflydoedd bach. Ar gyfartaledd, nid yw fflydoedd ar raddfa fach yn gwneud unrhyw elw, ac mae rhai ohonynt yn gwneud colled ar hyn o bryd. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r cychod yn fflyd Cymru yn llai na 10m o hyd yn golygu na fyddant yn gallu elwa yn y tymor byr ar gael mynd i ragor o ddyfroedd ac i bysgodfeydd yn y môr mawr. Oherwydd yr amodau meteorolegol anodd ar arfordir gorllewinol Cymru ac oherwydd bod y rhan fwyaf o'r harbyrau'n rhai bach llanwol, mae hynny'n golygu bod maint y cychod hyn yn cyfyngu ar y math o bysgota, ac ar faint o bysgota, y gallant ei wneud.

### Gwella'r fflyd

Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru mewn gweithio gyda'r diwydiant pysgota i helpu i wella gallu ac effeithlonrwydd y fflyd bresennol, gan ddatblygu cyflogaeth hirdymor yn y diwydiant pysgota, yn enwedig mewn cymunedau arfordirol, ond rhaid hefyd, ar yr un pryd, gadw'r ddysgl yn wastad rhwng hynny a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i edrych ar y posibilrwydd o sbarduno cyfleoedd i'r diwydiant pysgota a chymunedau arfordirol dyfu mewn ffordd gynaliadwy drwy fanteisio ar ein hadnoddau morol naturiol.

### Y gweithlu

Mae'r gweithlu pysgota yn un sy'n heneiddio. Mae newydd-ddyfodiaid yn brin ac mae hynny'n effeithio ar gynaliadwyedd busnesau pysgota. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog newydd-ddyfodiaid i weithio yn y diwydiant pysgota yng Nghymru. Byddai hynny, fodd bynnag, yn dibynnu ar sicrhau cyfleoedd pysgota cynaliadwy ac amrywiol y gellid buddsoddi ynddynt.

---

### Cwestiwn 20 o 29

Sut y gellid cynnal a gwella fflyd Cymru?

### Cwestiwn 21 o 29

Sut y gallai'r diwydiant pysgota, busnesau dyframaethu a chymunedau arfordirol sbarduno cyfleoedd i dyfu mewn ffordd gynaliadwy drwy fanteisio ar ein hadnoddau morol naturiol?

### Cwestiwn 22 o 29

Beth y gellid ei wneud i ddenu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol a physgota yng Nghymru?

---

## Tystiolaeth

### Mae'n rhaid wrth dystiolaeth gref a thryloyw er mwyn inni fedru rheoli'n amgylchedd morol a'r adnoddau naturiol y mae'n eu darparu mewn ffordd gynaliadwy.

Mae tystiolaeth gadarn yn hanfodol hefyd er mwyn deall ac ymateb i'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE a'r newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yma yng Nghymru, rydym yn awyddus i sicrhau tystiolaeth am y môr a physgodfeydd, a thechnoleg ar eu cyfer, sy'n galluogi:

- dull rheoli integredig, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth, ar lefel yr ecosystem sy'n arwain at foroedd iach a chydnerth ac sy'n cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau morol
- mwy o fynediad i'r amgylchedd morol, a mwy o gyfleoedd i'w fwynhau, gan wella iechyd a llesiant pobl
- datblygu cynaliadwy ac economi ffyniannus lle mae rhagor o swyddi a mwy o gyfoeth yn cael eu creu, gan helpu cymunedau arfordirol i fod yn fwy cydnerth, llewyrchus a theg ac yn fannau lle mae diwylliant yn ffynnu
- defnydd cyfrifol o dechnolegau carbon isel yn ardal forol Cymru, gan wneud cyfraniad cryf at ddiogelu ffynonellau ynni ac at dargedau o ran allyriadau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn cyfrannu at gyrraedd y nod yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Strategaeth Tystiolaeth Forol ac mae wedi comisiynu Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) i gynnal adolygiad o'r wybodaeth sydd gennym a'n dealltwriaeth o rywogaethau a stociau pysgod allweddol yn nyfroedd Cymru. Ar ôl i unrhyw fylchau gael eu nodi, gellir mynd wedyn ati i'w hasesu, i'w blaenoriaethu ac, os bydd modd, i'w llenwi drwy roi Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd ar waith.

Llwyddwyd i sicrhau dros £1.5 miliwn o gyllid – yn bennaf drwy'r Gronfa Bontio Ymadael â'r UE – ar gyfer ymchwil ac arolygon er mwyn trawsnewid y sylfaen dystiolaeth sydd gennym am bysgodfeydd. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei chasglu a'i dadansoddi drwy gydweithio a thrwy gontractau gyda sefydliadau gwyddorau pysgodfeydd, y diwydiant, y byd academaidd a phartneriaid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Bydd llawer o'r blaenoriaethau o ran tystiolaeth sy'n ymwneud â physgodfeydd yn gyffredin ar draws Cymru a Lloegr, y DU, neu'n rhyngwladol. Byddwn yn parhau i drafod yn agos â Gweinyddiaethau eraill y DU wrth inni fynd ati i gasglu ac i ddadansoddi tystiolaeth am y môr a physgodfeydd.

O ran sefyllfa pysgodfeydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, bydd cyfleoedd pysgota yn nyfroedd Cymru yn parhau i gael eu dyrannu ar sail cyngor a roddir gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES), a bydd y DU yn dod yn Aelod-wladwriaeth annibynnol o Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddylanwadu ar ymwneud y DU ag ICES a'r Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol, a bydd hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymwneud hwnnw.



**Cwestiwn 23 o 29**

Pa faterion sy'n wynebu'r amgylchedd morol y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wrth fynd ati i wneud gwaith ymchwil?

**Cwestiwn 24 o 29**

Pa rywogaethau a stociau pysgodfeydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wrth fynd ati i wneud gwaith ymchwil?

**Cwestiwn 25 o 29**

Pa ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol allweddol y dylid eu hystyried wrth wneud y gwaith ymchwil hwn?

**Cwestiwn 26 o 29**

Sut y gellir mynd ati i sicrhau bod prosiectau ym maes gwyddorau pysgodfeydd gan y sector cyhoeddus, y byd academaidd, ac eraill, yn rhai penodol a chydgysylltiedig er mwyn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddatblygu a gwerthuso polisïau a dulliau rheoli sy'n ymwneud â'r môr a physgodfeydd?



# Cyllid a Chymorth

## Rhaglenni sy'n cael cymorth oddi wrth yr UE ar hyn o bryd

Mae'r UE yn cynnig nifer o gyfleoedd cyllido. O dan Ffyniant i Bawb, bydd gwariant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol i bysgodfeydd yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y llywodraeth bob amser. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymrwymo holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i ystyried canlyniadau cynaliadwy wrth iddynt gynnal eu busnes arferol.

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yw'r brif ffynhonnell o gyllid uniongyrchol. Mae'r cyfnod cyllido ar gyfer rhaglenni fel hon yn parhau tan 2020. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglenni hyn yn cyllido prosiectau ar draws y maes polisi morol a physgodfeydd; er enghraifft, rhoddodd rhaglen Iwerddon Cymru a'r EMFF gymorth ar gyfer Eco strwythurau, rhaglenni i wella diogelwch ar gychod pysgota, a chymorth i ddatblygu busnesau dyframaethu newydd, ac i gasglu tystiolaeth wyddonol. Microfusnesau, yn bennaf, yw busnesau pysgota yng Nghymru ac mae newidiadau i drefniadau rheoli pysgodfeydd wedi golygu'n aml fod angen rhywfaint o gymorth arnynt i addasu. Hyd yma, rhoddwyd yw cymorth hwnnw drwy'r EMFF.

Maes arall lle y mae cyllid yr UE yn allweddol i'r môr a physgodfeydd yw'r cymorth uniongyrchol a geir drwy Sefydliadau Addysg Uwch, sy'n cael cyllid ymchwil oddi wrth yr UE. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn sail i rai agweddau ar bolisi morol a physgodfeydd ac mae'n darparu rhan o'r cyllid ar gyfer nifer o adrannau gwyddoniaeth yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru.

Yn olaf, rydym wedi bod ar ein hennill oherwydd bod rhai o swyddogaethau gwyddonol yr UE wedi cael eu lleoli yn y DU neu oherwydd bod gweithio ar y swyddogaethau hyn wedi bod yn rhan o yrfaoedd arbenigwyr yn y DU. Mae'r swyddogaethau hyn wedi arwain at gyfnewid gwybodaeth, at greu arbenigedd a sector gwyddonol ffyniannus lle mae màs critigol o rolau gwyddonol.

Mae hyn oll yn golygu bod y darlun o ran ffrydiau cyllido sy'n dod i mewn i Gymru ac i sefydliadau yng Nghymru yn un cymhleth, ac mai dim ond y sefydliadau sy'n cael y grantiau hynny sy'n gwybod faint o gyllid sy'n dod i mewn. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod i ba raddau y mae sefydliadau yn y sector morol a physgodfeydd yn dibynnu ar gyllid yr UE. Un o'r pethau cyntaf y bydd angen eu gwneud wrth fynd ati i ddatblygu trefniadau i olynu cyllid yr UE fydd mapio'r cyllid y mae sefydliadau allweddol yn ei gael oddi wrth yr UE.

## Dyfodol rhaglenni a gyllidir gan yr UE

Mae Prif Weinidog Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i barchu'r ymrwymiadau a wnaed ganddi yn y gorffennol, er mwyn sicrhau na fydd Cymru yn waeth ei byd ar ôl Brexit, ac y bydd y cyllid a oedd ar gael oddi wrth yr UE yn y gorffennol yn parhau i fod ar gael (tan 2020) ar ôl Brexit. Byddem yn disgwyl i'r ymrwymiad hwnnw gael ei barchu yn achos y tair ffrwd cyllid ac adnoddau uchod.

Mae angen rhaglen i olynu'r EMFF a bwriedir cynnal ymgynghoriad ar wahân i edrych ar gynigion posibl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r fethodoleg cyllido ar gyfer y rhaglen a fydd yn olynu'r EMFF gydnabod angen a chyfleoedd, ac na ddylai fod yn seiliedig ar nifer y cychod sy'n bodoli ar hyn o bryd nac ar faint o bysgod sy'n cael eu glanio nac ar feini prawf tebyg a allai olygu y bydd Cymru o dan anfantais. Mae trafodaethau'n parhau ac mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU i ystyried yr opsiynau.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i edrych ar sut y gall y diwydiant ei hun sicrhau buddsoddiad newydd a darparu gwasanaethau a fydd yn hyrwyddo ffyniant. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai buddsoddi mwy mewn busnesau pysgota newydd (er enghraifft, manteisio ar adnoddau morol eraill), mewn uwchraddio cychod a / neu wella'r cychod presennol yn helpu i greu diwydiant a fydd yn barod at y dyfodol

ac yn gallu cynnal ei hun, ac a fydd hefyd yn annog pobl newydd i ymuno â'r diwydiant ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd cyffredinol y fflyd yng Nghymru.

### Manteision i'r diwydiant

Mae'r diwydiant yn elwa ar gael defnyddio adnodd sy'n rhad ac am ddim. Ond mae'n bosibl bod mwy y gall y diwydiant pysgota ei wneud i ddarparu gwasanaethau defnyddiol i gyrff cyhoeddus neu gwmnïau yn y sector preifat mewn ffyrdd eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i edrych ar ffyrdd newydd i'r diwydiant arallgyfeirio a dod o hyd i ffrydiau cyllido newydd gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddo eisoes. Mae pysgotwyr yng Nghymru wedi bod yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth ers blynyddoedd ac maent yn cynnig cyfleoedd i bobl fynd ar deithiau pysgota hamdden ac i gael eu cludo i ardaloedd o harddwch naturiol ar arfordir Cymru, i enwi dim ond rhai.

---

### Cwestiwn 27 o 29

Sut y dylid mynd ati yn y dyfodol i dargedu unrhyw raglen a fydd yn olynu'r EMFF a rhaglenni eraill a gyllidir gan yr UE, ac ar ba sail y dylid gwneud hynny?

### Cwestiwn 28 o 29

A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi'r gorau i gynnig cymorth ar gyfer unrhyw un neu rai o'r gweithgareddau morol neu weithgareddau pysgodfeydd presennol, a pham y dylai wneud hynny?

### Cwestiwn 29 o 29

Pa gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau rhagor o fuddsoddiad yn y sector pysgota a'r sector morol?

---

## Llywodraethu a Chyfathrebu

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod dyfodol yr amgylchedd morol yng Nghymru gyda phob rhanddeiliad, a bydd yn mynd ati hefyd i'w drafod gyda'r cyhoedd. Mae hynny'n cynnwys trefnu bod gwybodaeth am sut y mae'n hamgylchedd yn cael ei reoli ar gael mewn ffordd mor hwylus ag sy'n ymarferol bosibl.

Ers nifer o flynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn symud at sefyllfa lle mae mwy a mwy o gydreolaeth ar ein pysgodfeydd, gan gydweithio'n agos â'r Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr (WMFAG), Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) ac yn fwy diweddar, yr Is-grŵp Moroedd a'r Arfordir, sy'n canolbwyntio ar Brexit, er mwyn mynd ati ar y cyd i bennu blaenoriaethau ac i lywio penderfyniadau.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn sylfaen a fydd yn ein helpu i fireinio'n syniadau yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod y diwydiant pysgota yn gryf ac yn gadarn wrth inni ymadael â'r DU a'i fod yn barod ar gyfer y dyfodol. Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf wrth inni fynd ati, drwy gydweithio, ac yn unol â'n hymrwymiad yn Ffyniant i Bawb, i ddatblygu polisi pysgodfeydd mwy hirdymor ac addas i'r diben i Gymru wrth inni adael yr UE.

## Dolenni at ddeunydd darllen pellach

Concordat Pysgodfeydd y DU (2012) : **https://www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/dard/fisheries-concordat-final-version-may-2014_0.pdf**

Y Strategaeth Twf Glas: **https://ec.europa.eu/maritimeaffairs/policy/blue_growth_en**

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC): **https://ec.europa.eu/fisheries/cfp_en**

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017: **http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012/contents/made**

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017: **http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1013/contents/made**

Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol: **https://www.cbd.int/**

Y Fframwaith Casglu Data: **https://www.gov.uk/guidance/data-collection-framework**

Deddf yr Amgylchedd (Cymru): **https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-act/?skip=1&lang=cy**

Bwletin Pysgodfeydd a Brexit: **https://gov.wales/news-alerts/?skip=1&lang=cy**

Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009: **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/contents**

Y Datganiad Polisi Morol: **https://www.gov.uk/government/publications/uk-marine-policy-statement**

Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol:
**http://ec.europa.eu/environment/marine/eu-coast-and-marine-policy/marine-strategy-framework-directive/index_en.htm**

Y cynllun amlflwydd: **https://ec.europa.eu/fisheries/cfp/fishing_rules/multi_annual_plans_en**

Fframwaith Rheoli Rhwydwaith 2018-2023: **https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-cymru-2018-2023.pdf**

OSPAR: **https://www.ospar.org/**

Ffyniant i Bawb: **https://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf**

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS): **http://www.un.org/Depts/los/convention_agreements/texts/unclos/unclos_e.pdf**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: **https.gov.wales/topics/people-and-communities/ people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: **https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/goblygiadau-brexit-i-gyfleoedd-pysgota-yng-nghymru/**